

# Ymdopi â Gwacáu

Cyngor ymarferol

---



# Cyflwyniad

*“Gwacáu yw symud pobl ac anifeiliaid i leoliad diogel i ffwrdd o berygl gwirioneddol neu berygl posibl”  
(Swyddfa'r Cabinet, 2013).*

Mae'r tebygolrwydd o gael eich gorfodi i wacáu eich cartref yn isel iawn a bydd ond yn digwydd o dan amgylchiadau eithafol. Fodd bynnag mae nifer o gamau y gallwch eu cymryd, er mwyn sicrhau ei fod mor rhwydd â phosibl.

## Ymdopi â

### Sut gallaf baratoi at wacáu?

I fod yn barod at wacáu, dylech chi neilltuo'r amser i...

- Greu Cwdyn Cipio, sy'n cynnwys eitemau y byddai eu hangen arnoch chi pe bai'n rhaid i chi wacáu e.e. meddyginiaeth hanfodol, rhifau cyswllt ar gyfer teulu a meddygon, dillad cynnes (i gael rhagor o wybodaeth gweler gwefan EVAC Caerdydd).
- Dysgu lle a sut i ddiffodd y cyflenwad dŵr, nwy a thrydan yn eich cartref.
- Cytuno ar sut bydd eich teulu'n aros mewn cysylltiad yn ystod argyfwng.
- Dysgu beth yw'r gweithdrefnau argyfwng i'ch plant yn yr ysgol ac ar gyfer eich gweithle.
- Dysgu a oes angen eich cymorth ar unrhyw gymdogion oedrannus neu sy'n agored i niwed.
- Cadw eich car bob amser gydag o leiaf hanner tanc o danwydd rhag ofn y bydd angen i chi wacáu.
- Cynllunio ychydig o leoedd y gallech fynd pe bai rhaid i chi wacáu, e.e. ffrindiau a theulu a sut byddwch yn mynd yno. Peidiwch ag anghofio am eich anifeiliaid anwes!

## Yn ystod Gwacáu

Os ydych gartref ac mae argyfwng yn digwydd.....

- Ewch â'ch Cwdyn Cipio
- Ewch ag allweddi eich cartref a'ch car, a chloi eich tŷ
- Ewch â'ch ffôn symudol
- Ewch â dillad sbâr a blancedi
- Diffoddwch yr holl gyflenwadau trydan, nwy a dŵr
- Tynnwch y plygiau allan o bob teclyn diangen
- Dylid cloi'r yr holl ddrysau a ffenestri.
- Dilynwch yr holl gyfarwyddiadau o'r gwasanaethau brys, maent yno i'ch helpu
- Ystyriwch drosglwyddo rhybuddion i gymdogion sydd o bosibl wedi methu'r wybodaeth a dywedwch wrth y gwasanaethau brys am unrhyw un sydd angen ei symud o'i gartref o bosibl. e.e. pobl anabl neu bobl hŷn
- Dywedwch wrth y gwasanaethau brys os ydych yn mynd i'r ganolfan gorffwys neu dŷ ffrind/ cyfaill, fel eu bod yn gwybod ble rydych chi
- Os ydych yn gwacáu trwy ddefnyddio eich car, ystyriwch roi lifft i'ch cymdogion os oes lle gyda chi

## Ar ôl Gwacáu

- Dylech ond dychwelyd gartref pan ddywedir wrthoch ei fod yn ddiogel i wneud hynny gan y gwasanaethau brys.
- Pan ddywedir wrthoch ei fod yn ddiogel mynd adref, agorwch y ffenestri i ddarparu awyr iach cyn ailgysylltu cyflenwadau nwy, trydan a dŵr.

## Cysgod ar Waith

Ar rai achlysuron mae'n bosibl y bydd y gwasanaethau brys yn penderfynu y byddai'n fwy diogel i bobl aros yn eu cartrefi, yn hytrach na gwacáu. Os bydd hyn yn digwydd:

- Arhoswch o dan do a chaewch yr holl ddrysau a'r ffenestri
- Dilynwch gyfarwyddiadau o'r gwasanaethau brys, maent yno i'ch helpu
- Ewch i'ch gorsaf radio leol a gwirio EVAC Caerdydd i gael diweddariadau

## Cysylltiadau Hanfodol

**Rhowch ragor o fanylion cyswllt ychwanegol i mewn yn ôl y gofyn:**

Gwasanaethau Brys: 999  
Y GIG: 111  
Gorsaf Leol yr Heddlu: 101

Meddyg.....  
Gwaith.....  
Ysgol.....

Rhifau teulu/ffrindiau  
Enw .....  
Rhif ffôn.....

Enw .....  
Rhif ffôn.....

Enw .....  
Rhif ffôn.....

**Gorsaf Radio Leol:** BBC Radio Wales: 90.3 i 95.8 FM  
BBC Radio Cymru: 93.1 i 104.9

### Cyfrangau Cymdeithasol

#### Twitter

EVAC Cardiff [@evacardiff](https://twitter.com/evacardiff)

Cyngor Caerdydd: [@cyngorcaerdydd](https://twitter.com/cyngorcaerdydd)

Western Power Distribution: [@wpduk](https://twitter.com/wpduk)

Dŵr Cymru: [@DwrCymru](https://twitter.com/DwrCymru)

#### Facebook

EVAC Cardiff: <https://www.facebook.com/evacardiff/>

# O ble gallaf gael rhagor o wybodaeth?

I gael rhagor o fanylion ar reoli argyfyngau yng Nghaerdydd...

EVAC Caerdydd: <http://www.evaccardiff.co.uk/>

## Neu cysylltwch â ni

Cyfeiriad:        Uned Rheoli Argyfyngau  
                      Ystafell 151  
                      Neuadd y Ddinas  
                      Caerdydd  
                      CF10 3ND

E-bost: [emergencymanagement@cardiff.gov.uk](mailto:emergencymanagement@cardiff.gov.uk)

Gwefan: <http://www.cardiff.gov.uk/evaccardiff/>

Ffôn: 02920 871838